# Datblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddi ar gyfer ceffylau perfformio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau perfformio.

Mae'n cynnwys asesu cyflwr presennol y ceffyl, gosod nodau ar gyfer y ceffyl a dewis y dull mwyaf priodol o hyfforddiant er mwyn galluogi'r ceffyl i gyflawni'r nodau hynny. Mae hefyd yn cynnwys gwerthuso ac adolygu'r rhaglen hyfforddiant er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fodloni'r amcanion.  Dylai'r amcanion a'r rhaglen hyfforddiant fod yn seiliedig ar gyfyngiadau'r ceffyl.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun a diogelwch eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gysylltiedig â dablygu a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau perfformio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwerthuso perfformiad a chyflwr presennol y ceffyl a nodi anghenion hyfforddiant y ceffyl
2. sefydlu a chytuno ar amcanion gyda'r personél perthnasol, a datblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer y ceffyl er mwyn bodloni'r lefel perfformiad gofynnol
3. ffurfio nodau a dulliau perfformio yn seiliedig ar yr amcanion cytûn, yr anghenion hyfforddi, cyfyngiadau'r ceffyl ac adnoddau
4. cyfathrebu gofynion y rhaglen hyfforddiant arfaethedig i bawb sydd yn gysylltiedig â'i gweithredu
5. goruchwylio'r gwaith o ddyrannu adnoddau i gyflawni amcanion y rhaglen hyfforddiant
6. sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn cael ei gweithredu i fodloni'r amcanion a nodir ar gyfer y ceffyl
7. cael adborth gan bawb sydd yn gysylltiedig â gweithredu'r rhaglen hyfforddiant
8. adolygu a diwygio'r rhaglen hyfforddiant er mwyn ystyried ymateb y ceffyl i'r hyfforddiant hyd yn hyn
9. sicrhau bod y cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u storio, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
10. asesu peryglon a rheoli risg i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y broses o sefydlu nodau ac amcanion mesuradwy ar gyfer rhaglen hyfforddi ceffyl perfformio
2. y ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad y ceffyl a'u heffaith ar y rhaglen hyfforddi
3. sut i ddatblygu rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar yr amcanion gofynnol a'r adnoddau sydd ar gael
4. y gofynion ar gyfer iechyd a lles ceffylau yn ystod pob cyfnod o'r hyfforddiant
5. pwysigrwydd briffio a pharhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â gweithredu'r rhaglen hyfforddi
6. y rhesymau dros brofi gwaed, pwyso a dehongli'r canlyniadau
7. y sylweddau sydd wedi eu gwahardd
8. manteision ac anfanteision dulliau hyfforddi gwahanol
9. effeithiau hyfforddiant ar les meddwl a chorfforol y ceffyl
10. dulliau hyfforddi addas i fodloni anghenion y rhalgen hyfforddi
11. pwysigrwydd adolygu a diwygio rhaglen hyfforddi i fodloni'r amcanion
12. sut i adnabod cyfyngiadau ceffylau i fodloni'r amcanion hyfforddi
13. egwyddorion ffisioleg ymarfer ar gyfer ceffylau
14. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion
15. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol.

LANEq405

Datblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddi ar gyfer ceffylau perfformio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq405 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; hyfforddiant |